# ADRODDIAD LLAWN Y CORFF LLYWODRAETHU I RIENI

"Dysgwyr da, dyfodol disglair"



# YSGOL GYNRADD GYMRAEG CWMLLYNFELL

Mae'r adroddiad hyn yn cyfeirio at y cyfnod rhwng mis Medi 2024 a mis Gorffennaf 2025.

## **MANYLION YR YSGOL**

| | |
|---|---|
| Cyfeiriad: | Heol y Bryn, Cwmllynfell, Cwmtawe, Abertawe,<br>SA9 2FJ. |
| Rhif Ffôn: | 01639 830630 |
| E-bost: | swyddfa@yggcwmllynfell.npt.school |
| Gwefan: | *https://yggd-cwmllynfell.j2bloggy.com* |
| *Twitter:* | *@YCwmllynfell* |
| Ystod Oedran: | 3 – 11 oed |
| Nifer ar y Gofrestr: | 65 |
| Pennaeth: | Mr Alun Sterl |

# TUDALENNAU'R CORFF LLYWODRAETHOL

## <u>Gair gan y Cadeirydd</u>

Annwyl Riant/ Warcheidwad,

Fel Cadeirydd y Corff Llywodraethol yn Ysgol Gynradd Gymraeg Cwmllynfell, mae'n bleser gen i gyflwyno Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Llywodraethol ar gyfer y flwyddyn academaidd 2024/ 2025.

Prif bwrpas yr Adroddiad Blynyddol yw i gyflwyno gwybodaeth allweddol i rieni ynglyn â'r ysgol:

- Perfformiad yr ysgol
- Cynllun Gwella'r ysgol
- Mantolen Ariannol
- Cyrhaeddiadau mewn gwahanol weithgareddau
- Cysylltiadau â'r gymuned

Unwaith eto, mae yna nifer o resymau i ddisgyblion Ysgol Gynradd Gymraeg Cwmllynfell fod yn falch iawn o'u hunain. Gallent gymryd balchder yn eu brwdfrydedd parhaus, eu cyflawniadau fel unigolion a'u parodrwydd i ddysgu. Fel corff llywodraethol, rydym yn diolch i'r holl staff a theuluoedd yr ysgol am gydweithio mor effeithiol er lles y disgyblion.

Mae bob amser yn braf clywed am fuddiannau ein disgyblion y tu allan i'r ysgol hefyd, ac mae darllen a chlywed am lwyddiannau'r disgyblion yn rhoi pleser i mi, y staff a'r Bwrdd Llywodraethol. Mae holl gyflawniadau ein disgyblion, tu fewn a thu allan i'r ysgol dim ond yn bosibl gyda chefnogaeth barhaus eu teuluoedd.

Ar ran y Llywodraethwyr, rwyf yn diolch i Mr Alun Sterl a staff yr ysgol am ei gwaith caled ac ymrwymiad i'r ysgol. Hefyd, rwyf am ddiolch i chi, y rhieni a chymuned ehangach yr ysgol am eich cefnogaeth parhaus. Edrychwn ymlaen i'r dyfodol, yn hyderus y byddwn yn llwyddo i ddarparu blwyddyn lwyddiannus arall i'r disgyblion, yn llawn profiadau a chyfleoedd cyffrous a bythgofiadwy. Ar ran y Corff Llywodraethol, hoffwn ddiolch i chi am eich cefnogaeth ac ymrwymiad i'ch plant a disgyblion Ysgol Gynradd Gymraeg Cwmllynfell.

Yr eiddoch yn gywir,

*Catrin Gibala*

Cadeirydd y Llywodraethwyr

**PWY YW PWY?**

| Enw | Statws |
|---|---|
| Ms C. Gibala | Cymuned |
| Cllr. D. Thomas | Cymuned |
| Mr M. Harries | Cymuned |
| Gwag | Cymuned |
| Cllr. A. Llewelyn | A.A.Ll. |
| Mrs C. James | A.A.Ll. |
| Dr N. Cole-Jones | A.A.Ll. |
| Mr D. Watkins | Rhiant |
| Mrs A. M. Jones | Rhiant |
| Mrs S. Evans | Rhiant |
| Gwag | Rhiant |
| Mrs K. Williams | Staff Ysgol (Cefnogol) |
| Mrs C. Owen | Staff Ysgol (Dysgu) |
| Mr A. Sterl | Pennaeth |

**CADEIRYDD Y LLYWODRAETHWYR**
Mrs C. Gibala. Am fwy o manylion, gellir cysylltu â swyddfa'r ysgol drwy ffonio'r ysgol ar: **01639 830630.**

**IS - GADEIRYDD Y LLYWODRAETHWYR**
Mrs Cathy James. Am fwy o manylion, gellir cysylltu â swyddfa'r ysgol drwy ffonio'r ysgol ar: **01639 830630.**

**CLERK I'R LLYWODRAETHWYR**
Mrs M. A. Walkinshaw. Gellir cysylltu â Mrs Walkinshaw drwy ffonio'r ysgol ar: **01639 830630.**

**CYFRIFOLDEBAU'R LLYWODRAETHWYR**

Yn ystod y flwyddyn, mae'r Llywodraethwyr wedi cydweithio yn agos gyda'r Pennaeth a staff i sicrhau fod yr ysgol yn gweithio'n effeithiol trwy:

- ✓ Fonitro ymddygiad cyffredinol yr ysgol;
- ✓ Datblygu gwydbodaeth a dealltwriaeth cwricwlwm yr ysgol;
- ✓ Gynorthwyo a chefnogi'r Pennaeth wrth ddiwygio a mabwysiadau polisiau'r ysgol;
- ✓ Reoli cyllid yr ysgol;
- ✓ Benodi staff newydd yr ysgol;
- ✓ Sicrhau fod gwybodaeth am yr ysgol ar gael i'r rhieni;
- ✓ Sicrhau bod adroddiad blynyddol i'r rhieni yn cael ei ddosbarthu.

Cynhaliwyd tri chyfarfod tymhorol yn ystod y flwyddyn. Cynhelir cyfarfodydd ar gyfer yr is-bwyllgorau lle bo angen.

**TREFNIADAU AR GYFER Y CYFARFOD BLYNYDDOL GYDA RHIENI**

O ganlyniad i Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion Cymru 2013 (Mai 2013), nid yw'n ofynnol bellach i gyrff llywodraethu gynnal cyfarfodydd blynyddol i rieni. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod y corff llywodraethol yn ymgysylltu'n weithredol gyda rhieni trwy ddarparu gwybodaeth a chyfleoedd iddynt gael mewnbwn i'r ysgol.

Mae'r Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 bellach yn galluogi rhieni disgyblion cofrestredig yn yr ysgol i ofyn am hyd at dri chyfarfod y flwyddyn gyda'r corff llywodraethu trwy gyfrwng deiseb. Darperir crynodeb byr isod. Rhaid i'r corff llywodraethu gynnal cyfarfod o fewn 25 diwrnod ysgol o dderbyn deiseb, cyn belled:

1. bod y ddeiseb yn cynnwys llofnodion yr isafswm angenrheidiol o rieni disgyblion cofrestredig yn yr ysgol, sef yr isaf o'r canlynol:
   (a) rheini 10% o ddisgyblion cofrestredig, neu
   (b) rheini 30 o ddisgyblion cofrestredig.

2. rhaid i'r cyfarfod y mae rhieni wedi gofyn amdano drafod mater yn berthynol i'r ysgol.

3. ni chaiff mwy na thri chyfarfod eu cynnal yn ystod y flwyddyn y derbyniwyd y ddeiseb gyntaf.

4. mae digon o ddyddiau ysgol ar ôl yn y flwyddyn ysgol i gynnal y cyfarfod.

Mae'r cyfarfod yn agored i holl rieni disgyblion cofrestredig yn yr ysgol, y pennaeth ac unrhyw berson arall a wahoddir gan y corff llywodraethu. Cyn gynted ag y mae'n rhesymol ymarferol, rhaid i'r corff llywodraethu hysbysu holl rieni disgyblion cofrestredig yn yr ysgol mewn ysgrifen, beth ydy dyddiad y cyfarfod, a'r mater i'w drafod.



# Ein Datganiad Cenhadaeth

## “Dysgwyr da, dyfodol disglair”

**Ein Gweledigaeth**

Mae hapusrwydd y plentyn yn allweddol i'w ddatblygiad ac yn ganolig i’n gweledigaeth. Ein bwriad yw darparu awyrgylch croesawgar, gofalgar, cynhwysol ac ysgogol, lle y bydd ein dysgwyr yn cael eu gwerthfawrogi ac yn teimlo’n hapus a diogel. Er mwyn datblygu pob disgybl i fod yn unigolion cyflawn, rydym yn ymrwymedig i feithrin gonestrwydd, cwrteisi a pharch at eraill.

Sicrhawn fod pob agwedd o fywyd yr ysgol yn cefnogi a datblygu ein disgyblion ar hyd eu llwybr addysgol a thu hwnt. Wrth deithio drwy'r ysgol, anogir pob disgybl i wneud ei orau glas, cyrraedd ei botensial a llwyddo mewn cymdeithas ddwyieithog. Anelwn at sicrhau fod pob disgybl yn gwbl ddwyieithog, ac yn dangos cariad at wlad, iaith ac etifeddiaeth.



**TREFNIADAU YSGOL**
Yn YGG Cwmllynfell, rydym yn anelu at ddatblygu dysgwyr hyderus ac annibynnol. Rydym yn llwyddo i wneud hyn trwy ddilyn gofynion Cwricwlwm i Gymru.

**STAFFIO – 2024/ 2025**

Ar gyfer y flwyddyn academaidd 2024/ 2025:

**Pennaeth**
Mr Alun Sterl

**Athrawon 2024 - 2025**

| | |
|---|---|
| Mrs Cathryn Owen | Meithrin/ Derbyn/ Blwyddyn 1 a 2 |
| Mrs Karen Hopton | Blwyddyn 3 a 4 (yb) 3,4,5 a 6 (yp) |
| Mr Alun Sterl | Blwyddyn 5 a 6 (yb) |

**Cynorthwywyr Addysgu**
Miss Telyn Evans
Mrs Kelly Williams

**Clerc yr ysgol**
Mrs Angharad Walkinshaw

**Gofalwraig/ Glanheuwraig**
Ms Jackie Williams

**Staff y Gegin**
Mrs Debbie Bennett (Cogyddes / *Cook*)
Mrs Michelle Meropoulos

**Staff Awr Cinio**
Mrs Elaine Carter
Miss Jade Anthony

**Staff Clwb Brecwast**
Mrs Debbie Bennett
Mrs Kelly Williams
Miss Telyn Evans

Mae Cynorthwywyr Addysgu yn darparu amrywiaeth o raglenni ymyrraeth er mwyn sicrhau bod y disgyblion yn cyflawni eu potensial. Mae rhain yn cynnwys:

- ✓ ELSA (cefnogaeth emosiynol)
- ✓ Nurture (cefnogaeth emosiynol)
- ✓ Rapid Maths
- ✓ Clwb lego (cefnogaeth emosiynol)
- ✓ Smart Moves
- ✓ Sensory Circuits
- ✓ POPAT
- ✓ Tric a Chlic

Cefnogir yr ysgol gan ddwy athrawes beripatetig ar gyfer cerddoriaeth:
Mrs Rhianwen Blackburn
Ms Jayne Thomas

**Ein Datganiad Cwricwlwm**

Yn YGG Cwmllynfell, mae staff, disgyblion, llywodraethwyr, rhieni a gofalwyr wedi cyd-weithio i ddatblygu a rhannu'r weledigaeth ar gyfer y cwricwlwm yr ydym wedi'i ddatblygu. Er mwyn cyflawni ein gweledigaeth ar gyfer llwyddiant, anelwn at greu cwricwlwm sy'n eang, cytbwys a chyffrous sy'n cefnogi ein gweledigaeth ac ethos

**"Dysgwyr da, dyfodol disglair"**

Mae ein cwricwlwm yn ffocysu ar sicrhau bod dysgwyr yn datblygu rhinweddau'r pedwar diben wrth ddod yn:

- ✓ Ddysgwyr Uchelgeisiol, Galluog;
- ✓ Gyfranwyr Mentrus, Creadigol;
- ✓ Ddinasyddion Egwyddorol, Gwybodus;
- ✓ Unigolion Iach, Hyderus.

Mae ein cwricwlwm hefyd yn sicrhau bod disgyblion yn datblygu dull integredig i ddysgu, gyda chysylltiadau ystyrlon yn cael eu gwneud ar draws y chwe Maes Dysgu a Phrofiad:

- Y Celfyddydau Mynegiannol
- Iechyd a Lles
- Y Dyniaethau
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Mathemateg a Rhifedd
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Mae hyn yn galluogi ein dysgwyr i wneud cysylltiadau ar draws eu dysgu a chyfuno gwahanol brofiadau, gwybodaeth a sgiliau. Mae cwricwlwm ein hysgol yn flaengar a bydd yn sicrhau bod y disgyblion yn datblygu hyder, rheolaeth, annibyniaeth a chydweithrediad wrth ddatblygu eu sgiliau llythrennedd, rhifedd, digidol a'r sgiliau cyfannol, yn ogystal â sicrhau eu bod nhw'n cael profiad o gynnwys cwricwlwm mwy cymhleth a soffistigedig i gyfoethogi a datblygu ymhellach eu gwybodaeth a dealltwriaeth.

Bydd dysgwyr yn YGG Cwmllynfell yn datblygu dealltwriaeth o bob "Datganiad o'r Hyn sy'n Bwysig" fel rhan o gwricwlwm yr ysgol. Bydd y datganiadau hyn yn cael eu harchwilio a'u hymweld er mwyn galluogi ein dysgwyr i ddatblygu lefel o wybodaeth a dealltwriaeth ddyfnach a mwy soffistigedig fyth o fewn pob Maes Dysgu a Phrofiad.

Mae ein cwricwlwm wedi'i ddylunio er mwyn hyrwyddo ymdeimlad o berthyn daearyddol, hanesyddol a diwylliannol o fewn cymuned yr ysgol. Anelwn at gefnogi ein disgyblion i ddeall eu hunaniaeth eu hunain o fewn y gymuned, yn ogystal â'u hunaniaethau eu hunain ac eraill yn y gymuned fwy eang yng Nghymru a'r byd ehangach. Mae ein cwricwlwm yn cynnwys profiadau safle'r ysgol ac oddi ar safle'r ysgol ac anelwn at wneud defnydd da o'r hyn sydd gennym yn yr ardal leol, gan gynnwys busnesau ac elusennau lleol.

Yn ychwanegol, addysgir y meysydd gorfodol canlynol i bob dysgwr trwy'r ysgol:

- Perthnasau Iach ac Addysg Rhyw
- Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg

Yn YGG Cwmllynfell, defnyddir asesu i gefnogi pob unigolyn i wneud cynnydd ar gyflymder priodol, â chefnogaeth effeithiol a heriol. Mae asesu'n ffocysu ar gefnogi dysgwyr i symud ymlaen yn eu dysgu o ddydd i ddydd ac adnabod a myfyrio ar gynnydd dysgwyr unigol a grwpiau o ddysgwyr dros amser.

Er mwyn gwneud hyn, byddwn yn datblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd, ar draws ein hysgol a'n cymuned ehangach. Byddwn yn rhannu bwriadau dysgu clir gyda:

- ein disgyblion
- staff ysgol gyfan
- ein llywodraethwyr
- ein rhieni
- ein clwstwr o ysgolion

**Themau 2024 – 2025**

Ein themau trwy'r ysgol yn ystod 2024 – 2025 oedd:

| | |
|---|---|
| **Tymor yr Hydref 2024** | Perthyn |
| **Tymor y Gwanwyn 2025** | Dur a Môr |
| **Tymor yr Haf 2025** | Byw a Goroesi |



**CATEGORI IEITHYDDOL / YR IAITH GYMRAEG**

Ysgol Gynradd Gymraeg yw Ysgol Cwmllynfell a Chymraeg yw iaith gyfathrebu'r ysgol. Erbyn i’r plant gyrraedd tua 5 – 6 oed maent yn ddigon profiadol i siarad Cymraeg yn hyderus a naturiol. Addysgir plant y Meithrin, Derbyn a Blynyddoedd 1 a 2 trwy gyfrwng y Gymraeg. Cyflwynir Saesneg ym Mlwyddyn 3, ac ar wahan i wersi Saesneg, addysgir y plant trwy gyfrwng y Gymraeg. Anelwn at sicrhau fod pob plentyn yn gwbl ddwyieithog erbyn diwedd Blwyddyn 6 ac ymdrechir i hysbysu rhieni o weithgareddau'r ysgol yn y Gymraeg a'r Saesneg.

**GWEITHGAREDDAU A PHROFIADAU ADDYSGOL I GEFNOGI’R CWRICWLWM**

Darparwyd amrywiaeth o brofiadau addysgol ar gyfer holl ddisgyblion yr ysgol er mwyn cyfoethogi eu dysgu:

- ✓ Sioe Gerdd y Peri Roadshow yn Ysgol Gyfun Ystalyfera Bro Dur
- ✓ Jambori yr Urdd
- ✓ Plannu blodau yn y gymuned
- ✓ Prosiect Parc Ystradowen
- ✓ Diwrnod Iechyd Meddwl y Byd - Adeiladu llochesi
- ✓ Diwrnod yng Nghanolfan y Mynyddoedd Bannau Brycheiniog
- ✓ Gwersi Mathemateg gan staff Ysgol Gyfun Ystalyfera Bro Dur
- ✓ Gwersi nofio
- ✓ Gŵyl Aml Sgiliau
- ✓ Clwb Coginio Mr Henry
- ✓ Gweithdy Celf Oriel Odl
- ✓ Clwb Garddio gydag Aled yn yr Ardd
- ✓ Ymweliad i’r sinema ym Mrynaman
- ✓ Gwasanaeth Iechyd Meddwl i Blant
- ✓ Gwasanaethau Hawliau Plant
- ✓ Gweithdai Sbectrwm
- ✓ Sioe Siani Sionc – Canolfan y Celfyddydau, Pontardawe
- ✓ Jenny Clarke o’r Wasanaeth Dân –Peryglon tân
- ✓ Cwrs Preswyl yn Pentre Ifan
- ✓ Cwrs Preswyl yn Abernant
- ✓ Gwersi gyda nyrs yr ysgol
- ✓ Chwaraeon PESS – Llandarcy
- ✓ Eisteddfod yr Urdd Dur a Môr
- ✓ Gwasanaeth bwyta’n iach
- ✓ Twrnament tag rygbi merched ym Mhondardawe
- ✓ Twrnament pêl-rwyd yng Nghwmtawe
- ✓ Twrnament pêl-droed merched a bechgyn
- ✓ Cystadleuaeth athletau ysgolion Cymraeg y Sir
- ✓ Gig Tanio’r Ddraig

## CYNLLUN DATBLYGU’R YSGOL 2024 / 2025

Blaenoriaethau’r ysgol ar gyfer 2024 - 2025 oedd:

| |
|---|
| Datblygu dealltwriaeth gytûn o gynnydd ar draws yr ysgol - gan ganolbwyntio ar gynllunio, ddatblygu strategaethau Asesu mewn Dysgu effeithiol a chysoni adborth athrawon. |
| I sicrhau bod disgyblion yn dod yn fwy rhugl yn eu sgiliau mathemateg a rhifedd gan gyflwyno ac archwilio cysyniadau drwy ystod eang o brofiadau tu fewn a thu allan i’r ystafell dosbarth. |
| Datblygu medrau darllen ac ysgrifennu yn y Gymraeg er mwyn sicrhau bod disgyblion yn darllen ac ysgrifennu gyda gwell cywirdeb, rhuglder, dealltwriaeth a mwynhad ar draws y cwricwlwm. |
| Yn unol â blaenoriaeth yr Awdurdod Lleol a Llywodraeth Cymru, gwella presenoldeb disgyblion. |

## Blaenoriaethau’r ysgol ar gyfer 2025 / 2026

Mae uwch arweinwyr yr ysgol wedi nodi'r targedau **Cynllun Datblygu Ysgol** canlynol ar gyfer y flwyddyn academaidd **2025 - 2026:**

- Datblygu cynlluniau ein cwricwlwm, asesu ar gyfer dysgu sy’n cynnwys adborth er mwyn symud y dysgu yn ei blaen.
- I sicrhau bod disgyblion yn dod yn fwy rhugl yn eu sgiliau mathemateg a rhifedd gan gyflwyno ac archwilio cysyniadau drwy ystod eang o brofiadau tu fewn a thu allan i’r ystafell dosbarth.
- Datblygu medrau darllen er mwyn sicrhau bod disgyblion yn darllen gyda gwell cywirdeb, rhuglder, dealltwriaeth a mwynhad ar draws y cwricwlwm.
- Yn unol â blaenoriaeth yr Awdurdod Lleol a Llywodraeth Cymru, gwella presenoldeb disgyblion.



**ORIAU YSGOL**

Mae'r siart isod yn dangos oriau arferol a threfniadau arferol yr ysgol yn ystod y flwyddyn academaidd 2024 – 2025:

| | | |
|---|---|---|
| Sesiwn bore | 8:50 a.m. | 11:50 a.m. |
| Awr ginio | 11:50:a.m. | 12:50 p.m. |
| Sesiwn prynhawn | 12:50:p.m. | 3:20 p.m. |

(Plant y dosbarth Meithrin bore yn cychwyn am 8.50 a.m. ac yn gorffen am 11.20 a.m)

**NOSWEITHIAU AGORED**

Trefnwyd tair noswaith agored i rieni yn ystod 2024 / 2025.

**CYFATHREBU GYDA RHIENI**

Yn ystod y flwyddyn academaidd 2024 / 2025, buodd yr ysgol yn cyfathrebu gyda rhieni trwy lythyron, Trydar, Schoop a Gwefan yr ysgol.

**PROSPECTWS YR YSGOL**

Yn ystod mis Medi 2024, adolygwyd prospectws yr ysgol, gan wneud man newidiadau i adlewyrchu dyddiadau, staffio a phrif amcanion yr ysgol ar gyfer y flwyddyn academaidd. Gellir cael copi o'r prospectws o swyddfa'r ysgol neu wefan yr ysgol.

**SYMUD YMLAEN**

Ar ddiwedd y flwyddyn academaidd 2024 / 2025 fe fyddwn yn ffarwelio gyda 10 disgybl Blwyddyn 6, gyda 7 ohonynt yn mynd i Ysgol Gyfun Ystalyfera Bro, 2 ohonynt yn mynd i Ysgol Maes y Dderwen ac 1 ohonynt yn mynd i Ysgol Dyffryn Amman.



**CYSYLLTIADAU Â'R GYMUNED**

- Mae disgyblion yr Adran Iau wedi bod wrth eu boddau yn gweithio ar brosiect Parc Ystradowen gyda Sally Williams. Maent wedi cyflawni nifer o weithgareddau yn yr awyr agored ac harddi'r mannau cyhoeddus.
- Mae disgyblion Blwyddyn 5 a 6 wedi bod wrth eu boddau allan yn plannu planhigion yn y gymuned. Mae'r blodau o gwmpas y pentref yn edrych yn hyfryd. Diolch i'r Cyngor Cymunedol am ein gwahodd.
- Braf oedd ennill wobr yng nghystadleuaeth Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig am waith y disgyblion ar ein cymuned ac un o'i enwogion, Watcyn Wyn.
- Cynhaliwyd ein gwasanaeth Cynhaeaf yng Nghapel Cwmllynfell. Yn ystod y wasanaeth, codwyd arian tuag at y capel a chasglwyd bwyd ar gyfer y banc bwyd yn Ystalyfera.
- Fe wnaeth yr Adran Iau diddanu aelodau o Glwb Cinio'r Hen Oed drwy ganu amrywiaeth o ganeuon yng Nghlwb Bach Ystradowen.
- Fe wnaethom dderbyn myfyriwr o Ysgol Gymunedol Cwmtawe ar ei profiad gwaith.
- Cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau yn Neuadd Cwmllynfell e.e. gwersi bowls, disco, Ffair Nadolig a Sioe Nadolig.
- Fe wnaethom dderbyn dwy darpar athrawes o'r adran addysg ym Mhrifysgol Abertawe yn ystod y flwyddyn ac roedd y partneriaeth yn llwyddiannus iawn. Rydym yn gobeithio derbyn mwy o fyfyrwyr yn y dyfodol.

**ELUSENNAU**

Cefnogwyd yr elusennau canlynol yn ystod 2024 / 2025:

- Banc Bwyd Ystalyfera
- *Macmillan Cancer Support*
- Plant Mewn Angen
- *Joseph's Smile*
- Pwyllgor Apêl Eisteddfod yr Urdd Dur a Môr 2025

**CHWARAEON**

Prif nod Addysg Gorfforol yw annog a chefnogi disgyblion i fyw bywyd iach a datblygu priodweddau hanfodol e.e. hyder, dyfalbarhad, ymdrech, chwarae teg a chydweithio'n effeithiol. Mae holl ddisgyblion yr ysgol yn derbyn o leiaf dwy wers addysg gorfforol yn wythnosol. Mae'r gwersi hyn yn cynnwys:

- Gymnaseg
- Dawns
- Nofio (Blwyddyn 3,4,5 a 6)
- Athletau
- Gweithgareddau Awyr Agored ac Antur
- Gemau

Mae pob disgybl yn cymryd rhan yn y prosiect "Cerdded Milltir" yn ddyddiol ac mae grŵp o ddisgyblion wedi cael eu hyfforddi fel Llysgenhadon Chwaraeon.



## ADOLYGU AC ADDASU POLISIAU A DOGFENNAU'R YSGOL

Yn ystod y flwyddyn academaidd 2024 / 2025 adolygwyd ac addaswyd y polisiau a dogfennau canlynol:

Dogfen Hunanwerthusiad Ysgol
Cynllun Datblygu Ysgol
Prospectws Ysgol
Derbyniadau Ysgol
Llawlyfr Staff
Diogelu ac Amddiffyn Plant
Iechyd Meddwl a Lles
Cynllun Mamolaeth
Recriwtio Diogel
Rheoli Traffig
Teithio a Chynhaliaeth
Chwythu Chwiban
Amodau Tâl Athrawon
Cyfleoedd Cyfartal
GDPR – Diogelu Data
Medrusrwydd
Bwyd a Ffitrwydd
Defnydd Toiledau Ysgol
Gwisg Ysgol
Diswyddo ac Adleoli

## TARGEDAU PRESENOLDEB

Yn gyson, rydym yn monitro presenoldeb disgyblion. Rydym yn cydweithio'n agos gyda

Swyddog Lles yr awdurdod lleol. Ein lefel presenoldeb ar gyfer y flwyddyn oedd 94%



**TREFNIADAU AR GYFER PLANT SYDD AG ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL (ADY)**

Mae'r ysgol yn gweithredu o fewn cysyniadau traws gwricwlaidd. Addysgir plant mewn dosbarthiadau o allu, oedran a rhyw cymysg. Yn ystod y flwyddyn academaidd 2024 / 2025, darperir cymorth dysgu i blant ag Anghenion Addysgol Ychwanegol o fewn y dosbarthiadau ac mewn grwpiau ymyrraeth tu fas i'r dosbarth.

Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd nifer o drafodaethau anffurfiol a ffurfiol gyda rhieni / goruchwylwyr y disgyblion a oedd yn achosi pryder a defnyddiwyd nifer o wasanaethau cymorth yr Awdurdod Addysg i gynghori athrawon ar strategaethau dysgu ar gyfer y disgyblion yma.

Y cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol ar gyfer y flwyddyn academaidd oedd **Mrs Karen Hopton**.

**AMDDIFFYN PLANT**

Swyddogion Amddiffyn Plant yr ysgol hon ar gyfer 2024 / 2025 oedd **Mr Alun Sterl, Mrs Karen Hopton a Mrs Cath Owen. Mrs Catrin Gibala** yw'r cynrychiolwr o'r Corff Llywodraethol i gydweithio gyda'r ysgol parthed materion Amddiffyn Plant. Adolygir y polisi Amddiffyn Plant yn flynyddol ac yn cael ei dderbyn gan y Corff Llywodraethu yn ystod Tymor yr Hydref. Mae pob Aelod o staff wedi derbyn hyfforddiant statudol Amddiffyn Plant gan y Pennaeth.

**DISGYBLION ANABL**

Ein nod yw creu cyfleoedd cyfartal i bawb. Ceir rhai cyfleusterau i bobl anabl ar y safle. Mae pob mynediad i'r ysgol yn addas i blant ac oedolion mewn cadair olwyn gael mynediad

corfforol i'r adeilad heblaw am un.  Mae gennym gyfleusterau toiled i’r anabl. Rydym hefyd yn gofyn am gyngor yr Awdurdod Lleol er mwyn diwallu anghenion disgyblion ag anabledd.

Mae ethos yr ysgol wedi’i seilio’n gadarn ar chwarae teg a chyfleoedd cyfartal. Felly rydym yn gwneud pob ymdrech resymol i rwystro disgyblion sydd ag anabledd rhag cael eu trin yn llai ffafriol na disgyblion eraill. Mae gan yr ysgol gynllyn hygyrchedd cyfoes.

**CYFLEUSTERAU TOILED**

Darperir toiledau glân a hylan ar gyfer y disgyblion. Mae’r toiledau yn addas ar gyfer ystod oedran y disgyblion yn y ddwy adran ac maent yn cael eu glanhau yn ddyddiol. Yn ychwanegol i’r toiledau hyn, mae gennym ddwy ystafell anabl, un yn cynnwys toiled a sinc a’r llall yn cynnwys toiled, sinc, cawod a gwely arbennig ar gyfer newid cewynnau.

Meithrin, Derbyn, Blynyddoedd 1 a 2: – 3 chiwbicl a 3 sinc.

Blynyddoedd 3 i 6: – 3 chiwbicl a 3 sinc i’r merched, 2 giwbicl, 1 troethle a 3 sinc i’r bechgyn.

Mae disgyblion yn cael eu hannog i gynnal safonau uchel o hylendid ar bob adeg.

**YFED A BWYTA’N IACH**

Mae’r ysgol yn hyrwyddo bwyta ac yfed iach ac anogir disgyblion a’u rhieni i fwyta’n iach. Paratoir bwydlenni ar lefel Awdurdod sy’n sicrhau’r lefel gywir o faeth.  Anogir disgyblion i yfed dŵr wrth weithio ac y maent yn ymwybodol o bwysigrwydd hydradiad y corff.

**NEWYDDION ECO**

Pleser yw cyhoeddi ein bod ni wedi llwyddo i gadw ein statws PlatinwmYsgolion ECO unwaith eto eleni.



**CYLCH MEITHRIN CWMLLYNFELL**

Rydym yn bles iawn i weld ein cylch meithrin ar gyfer plant 2 i 4 blwydd oed yn parhau i ddatblygu'n llwyddiannus. Mae ganddynt dudalen ar Facebook (Cylch Meithrin Cwmllynfell), sy'n dangos yr holl weithgareddau gwych sy'n digwydd bob dydd. Cysylltwch â'r ysgol am fwy o fanylion.





## TYMHORAU YSGOL A DYDDIADAU GWYLIAU 2025 / 2026

| Tymor | Tymor yn Dechrau | Gwyliau hanner tymor yn dechrau | Gwyliau hanner tymor yn gorffen | Tymor yn gorffen | Dyddiau |
|---|---|---|---|---|---|
| **Hydref 2025** | Dydd Llun Medi 1af | Dydd Llun Hydref 27ain | Dydd Gwener Hydref 31ain | Dydd Gwener Rhagfyr 19eg | 75 |
| **Gwanwyn 2026** | Dydd Llun Ionawr 5ed | Dydd Llun Chwefror 16eg | Dydd Gwener Chwefror 20fed | Dydd Gwener Mawrth 27ain | 55 |
| **Haf 2026** | Dydd Llun Ebrill 13eg | Dydd Llun Mai 25ain | Dydd Gwener Mai 29ain | Dydd Llun Gorffennaf 20fed | 65 |
| | | | | Cyfanswm | 195 |

**Hyfforddiant Mewn Swydd (HMS)**
Dydd Llun, Medi 1af 2025
Dydd Gwener, Hydref 24ain 2025
Dydd Llun, Gorffennaf 20fed 2026

Mae 3 ddiwrnod HMS arall i'w cadarnhau yn ystod y flwyddyn ysgol.



**Newyddion CRAFf**

Rhaid diolch i'n Cymdeithas Rhieni Athrawon a Ffrindiau brysur a chydwybodol iawn am eu gwaith caled yn ystod y flwyddyn, yn trefnu gweithgareddau hyfryd a chodi arian:

- ✓ Disgo Calangaeaf
- ✓ Trip siopa i Gaerdydd
- ✓ Ffair Nadolig
- ✓ Her Wyau Pasg
- ✓ Ffair haf
- ✓ Talu am wibdeithiau

Mae'r staff a disgyblion yn ddiolchgar iawn am eu hymdrechion i godi arian ar gyfer ein hysgol.



**Datganiad Ariannol: Ebrill 2024 – Mawrth 2025 – YGG Cwmllynfell**

| | **Delegated Costs** |
|---|---:|
| Teachers Salaries | £241,541.03 |
| Salaries | £110,132.13 |
| Wages | - |
| Other Employee Expenses | £24.00 |
| Premises | £36,337.66 |
| Transportation | £127.50 |
| Supplies and Services | £11,015.08 |
| Transfer Payments | £2,257.88 |
| Support Services | £54,411.47 |
| Government Grants and Contributions | -£63,587.38 |
| Sales | -£181.50 |
| Fees and Charges Income | -£3,322.00 |
| Rents | -£25.00 |
| Internal Recharges | -£19,061.61 |
| Interest Received | |
| Transfers | -£43,518.50 |
| | |
| Total | £321,635.00 |

| | **Non-Delegated Costs** |
|---|---:|
| Teachers Salaries | |
| Other Employees | |
| Other Employee Expenses | £6,464 |
| Other Direct Costs | |
| Transportation | £ 38,969 |
| Capital Charges | |
| Misc Income | |
| Contribution to / from reserves | |
| | |
| Total | £ 45,433 |